# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION – CYFARFOD MEHEFIN 2021

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 23 o Fehefin, 2021** |
| **AMSER** | **7.00yh Cyfarfod Llawn y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **CANOLFAN FELINWNDA** |

| | |
|---|---|
| 1. | **CROESO** |
| | Croesawodd Huw Rowlands y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gyntaf wyneb yn wyneb ers y cyfyngiadau ymlacio. Eglurodd bod y cyfarfod wedi ei drefnu yn wreiddiol ar gyfer y 16/06/21 ond ei fod wedi ei ohirio tan heno oherwydd rhesymau tu hwnt i reolaeth.<br>Yn bresennol heno roedd Michelle Williams (MW), Nerys Evans (NE), Jason Hunt (JH), Gwilym Thomas (GT), Gwilym Williams (GW), Tom Ellis (TE) a Gillian Wynne Thomas (Clerc).<br>Cadarnhaodd y Cadeirydd bod Datganiad Cyllideb 2020/21 wedi ei ardystio a'i chymeradwyo yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar y 26/05/21 gyda MW yn ei chynnig yn gywir ac JH yn eilio. |
| 2. | **YMDDIHEURIADAU** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan, Elin Evans (EE), Aeron M Jones (AMJ), Peter Roberts (PR), Bryn Hughes (BH), Rhodri Dwyfor (RD), |
| 3. | **DATGAN BUDDIANT** |
| | Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad ar gyfer y noson. |
| 4. | **CADARNHAU COFNODION MAI 2021 A MATERION YN CODI** |
| | Cynigiodd MW gywirdeb i'r cofnodion ar bwynt 7(d) - Gwrthwynebiad Cynllunio Stephen M. Bastow And Gwilym Williams - Ael Y Bryn, Rhosgadfan, Caernarfon.<br>Roedd MW o'r farn nad oed hi ac JH wedi cynnig ac eilio gyrru cefnogaeth i wrthwynebiadau Mr. Bastow a Mr. Williams ond yn hytrach bod yr aelodau wedi trafod y gwrthwynebiadau a'u bod wedi cytuno gyrru cais i'r Cyngor Sir ystyried gwrthwynebiadau Mr. Bastow a Mr. Williams yn fanwl cyn gwneud unrhyw benderfyniad.<br>Trafodwyd barn weddill yr aelodau a cytunwyd bod sawl sylwadau wedi ei wneud yn ystod y cyfarfod rhithiol ond bod y sylwadau terfynol yn cyd fynd a cywirdeb MW. Y Clerc I ddiweddaru'r Cyngor Sir a cywiro'r cofnodion.<br><br>Cynigwyd gweddill y cofnodion yn gywir gan MW gyda JH yn eilio, cytunodd pawb. |
| 5. | **MATERION MISOL** |
| 6. | **a) YMDDISWYDDIADAU - BRYN HUGHES A RHODRI DWYFOR - SETI WAG**<br>Derbyniwyd gohebiaeth gan Fryn Hughes a Rhodri Dwyfor yn hysbysu o'u bwriad i ymddiswyddo fel aelodau ar y Cyngor. Adroddodd y ddau fod cynnydd enfawr yn eu pwysau gwaith ers y cyfyngiadau ymlacio, i berwyl hyn teimlodd y ddau nad oeddent yn gallu ymrwymo digon i wneud cyfiawnder ar eu rôl ar y Cyngor Cymuned. Esboniodd HR y broses o gyfethol cynghorwyr. Y Clerc I weithredu'r trefniadau priodol i gyfethol un aelod ar gyfer Rhostryfan ac un ar gyfer Rhosgadfan gyda'r Cyngor Sir. Cytunwyd ail ethol swyddogion ar bwyllgorau fis Medi.<br><br>**b) LLWYBR BRYN GWYN**<br>Adroddodd y Clerc ei bod wedi trafod y chwyddiant tebygol i'r gwaith sydd angen ei gyflawni yn Nhryfan Junction gyda'r contractwr presennol a'r cynnydd tebygol i'r amcan bris o £1075 oedd wedi ei gynnig yn ôl |


*Clerc Cyngor Cymuned Llanwda Community Council Clerk* *Ffon / Tel: 07979 438 307*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP* *E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*

yn 17.7.20 . Gofynnodd iddo a buasai yn hytrach yn fodlon cynnig pris ar gwbl y gwaith sydd ei angen i'r llwybr. Nid oedd ganddo ddiddordeb.

Derbyniodd MW gwyn ychwannegol yn ystod y mis bod gwartheg yn denig i'r lon oherwydd tamaid sylweddol o ffens sydd wedi disgyn ar y llwybr i gyfeiriad y Fron, i berwyl hyn trefnwyd taith gerdded gyda JH a GW a thri contractwr sef Dylan Hymphreys, GLR Groundworks ac Andy Bingham ar y 13.6.21 i drafod y gwaith sydd ei angen ar gyfan y Llwybr.

Derbyniwyd pris ar waith gan Dylan Humphreys yn unig.

Adroddodd GT ei fod wedi derbyn sylwadau gan Dylan ei bod yn anodd iawn prisio'r gwaith gan nad oedd y Cyngor yn sicr o'r gwaith sydd angen ei gyflawni. Y Clerc i ofyn i RD pe bai yn fodlon mynychu un cyfarfod i drafod y llwybr ymhellach ac adrodd i Dylan bydd unrhyw waith yn cael ei ohirio am y tro.

**c) TYRCHOD DEAR YM MYNWENT CEFNFAES**

Adroddodd y Clerc mai'r ymateb cyffredinol iddi dderbyn wrth holi clercod Cynghorau Cymuned Arfon a Dwyfor a'r Cyngor Sir am bolisïau parthed tyrchod dear oedd bod dim byd ffurfiol ar ddu a gwyn gan neb ond eu bod yn trefnu eu gwared gyda thrapiau. Y teimlad hefyd yw gan fod y trapiau dan ddaear nid oedd cwynion am ei defnydd. Ni oedd gan Un Llais Cymru wybodaeth ddefnyddiol i'w gynnig.
Adroddodd NE bod y sefyllfa yn parhau i wella gyda gwair yn tyfu trwy'r twmpathau. Cytunwyd i gadw golwg ar y mater,
Penderfynwyd trefnu cyfarfod gyda Pwyllgor y Fynwnet ar y 30/06/21 am 7 y nos ym Mynwnet Cafnaes i drafod gwaith clirio tyfiant.

**d) PONT TROED BRO GILBERT, RHOSTRYFAN**

Adroddodd JH bryderon yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor bod plant yn ymgysylltu ar y Bont ac yn dringo lawr uchder sylweddol i'r dŵr gyda'r nos. Y Clerc wedi adrodd y broblem I Petra Irvine ac erbyn hyn wedi derbyn diweddariad bydd y gwaith yn cael ei gyflawni yn y bythefnos nesaf. Adroddodd JH nad oedd y gwaith wedi ei gynnal hyd yn hyn, y Clerc I ofyn am unrhyw ddiweddariad gan Petra.

**e) JH - BOLARD YM MHONT BRO GILBERT**

Adroddodd y clerc bod y cais am folard nawr yn nwylo'r Adran deis trefol gyda chyfeirnod PR2106 269 17 ond nid oedd ddiweddariad pellach hyd yn hyn. Y clerc i ddilyn y mater.

**f) PROJECT UWCH GWYRFAI – GWETHUSO- CWYN BOD GORLAN WEDI EI PLANNU GAN GW**

Derbyniwyd gwyn gan GW erbyn cyfarfod mis Mai bod tamaid o dir wedi ei blannu gyda choed wrth derfyn Garnedd ar y comin sy'n cael ei adnabod yn lleol fel y Gorlan. Adroddodd bod y Gorlan yn y gorffennol wedi cael ei ddefnyddio i gerdded gwartheg ac yn osgoi eu cerdded ar hyd y lon.
Adroddodd y Clerc y gwyn I Dion Roberts ac esboniodd ei fod wedi ymgynghori gyda'r Gymdeithas Porwyr a thrigolion lleol ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad. Parthed achosi effaith ar yr afon, ymgynghorwyd gydag arbenigwr afonydd Dwyfor i Gyfoeth Naturiol Cymru, ac roedd yn gwbl gyfforddus gyda'r gwaith. Adroddodd bod gwreiddiau coed yn fwy tebygol o sefydlogi torlannau neintydd a rhwystro erydiad.
Rhannwyd Adroddiad Project Uwch Gwyrai, Llythyr I ddeiliaid hawliau pori a map o ble oedd y coed wedi eu plannu gyda'r aelodau.
Gan mai teimlad cyffredinol yr aelodau oedd bod llawer o waith y project heb ei gyflawni cytunodd MW a GT ddarparu rhestr o gwestiynau i'w codi erbyn y cyfarfod nesaf.

**g) JH – PECYN O DIR YN FRONDEG – RHOSTRYFAN**

Adroddodd JH yng nghyfarfod Mai ei fod wedi derbyn cwyn bod un o'r cymdogion wedi meddiannu llecyn o dir yn perthyn I Gwmni Adra oedd wedi ei glustnodi fel safle parcio ac wedi torri gwrychoedd cymydog arall wrth glirio, ychwanegodd bod y gwyn wedi cael ei adrodd i gwmni ADRA gan y perchennog ond nid oedd ymateb wedi ei dderbyn.
Esboniodd y clerc ei bod wedi ail adroddod y gwyn ar ran y Cyngor a gofyn iddynt ymateb ar fyrder. Derbyniwyd cydnabyddiaeth or llythyr ond dim diweddariad.
Y clerc i ddilyn y mater erbyn y cyfarfod nesaf.

**h) MW - POLYN PERYG WRTH GAE CHWARAE RHOSGADFAN**

Adroddodd y clerc bod Dylan Humphreys wedi symud y polyn ar safle nawr yn saff.

**i) NE - CAR YN PARHAU AR LWYBR TAN FRON RHOSTRYFAN**

Y mater i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

**j) GT - TAI DINAS – YMATEB ADRAN CYNLLUNIO**

Trafodwyd ymatebion i'r cwestiynau canlynol a godwyd gan GT

- **Pam tydi'r pwyntiau sydd wedi eu marcio ar yr adroddiad atodol ddim yn cael eu dilyn?**

Mae'r CTMP yn 'working document' gyda gofynion gwaith y safle'n golygu fod angen newid dulliau gwaith i siwtio ar adegau. Trafnidiaeth ddim yn ymwybodol o unrhyw broblemau sydd wedi cael ei achosi gan y dull gwaith presennol. Er hynny mae'r mynediad o'r gefnffordd yn cael ei ddefnyddio yn aml a mater i'r Uned Cefnffyrdd yw unrhyw broblemau ag achosir trwy hynny.

- **Pam fod mynedfa Mount Pleasant yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd?**

Fel yr uchod. Yn ogystal mae staff y safle'n parcio fan hyn er mwyn cadw cerbydau'n glir o'r safle adeiladu. Ddim yn broblem imi wybod.

- **Pam bod mynedfa derfynol y safle yn mynd i gael ei ddefnyddio ar lon Rhosisaf sydd gyda chyflymder o 60 milltir yr awr pan fod mynedfa Mount Pleasant yn gwneud mwy o synnwyr ac yn saffach wrth gysidro ei bod ar lon cyflymder 30 milltir yr awr?**

Dyma a ganiatawyd. Mae'r mynedfa ar lon Rhos Isaf o fewn medrau o gychwyn y cyfyngiad 40mya gyda cyflymder traffig yn arafu i'r gyffordd. Nid oes y cais gwreiddiol yn cynnwys tir safle'r Mount ac felly roedd angen mynediad o gyfeiriad Rhos Isaf.

- **Cafwyd unrhyw adroddiad ei wneud yn ystod cyfyngiadau Covid pan nad oedd cerbydau arferol yn teithio, a fydd modd i hyn gael ei astudio eto.**

Yn ôl y system cynllunio fe ganiatawyd y cais yn Chwefror 2019 - gyda'r adroddiadau wedi cael ei gynhyrchu cyn hynny a cyn unrhyw gyfyngiadau Covid. Maen nhw'n cyfeirio at y cais am 'phase '?

I clerc i yrru sylwadau pellach yn gofyn am fynedfa y Mount gael ei defnyddio fel mynedfa terfynol Cam 1 a Cam dau gan fod pryderon am gynydd traffic ar y cefnffordd i Rhostryfan mor agos i'r gyffordd.

**k) PROBLEM PARCIO AR LON GEFN Y DREFLAN, RHOSGADFAN**

Adroddodd y clerc ers cymhwyso llinellau melyn dwbl o flaen yr anheddau mae'r broblem parcio bellach wedi symud i'r ffordd gefn sy'n arwain o rif 1 i rif 13 gyda chymdogion yn cwyno eu bod wedi methu apwyntiadau oherwydd cerbydau wedi'u parcio ar draws mynedfeydd.

Ychwannegodd ei bod wedi cysylltu a'r Cyngor oedd wedi rhoi gwybod iddi nad oedd y ffordd wedi ei mabwysiadu.

Y Clerc i gysylltu â Chwmni Adref i ofyn am arweiniad.

## 7. DERBYN ADRODDIADAU

Adroddiad Uwch Gwyrfai

## 8. MATERION CYNLLUNIO

**RHIF CAIS: C21/0433/24/DT – CAER MOEL, DINAS, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 7YW**

Estyniad unllawr rhwng dwy uned wyliau presennol

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau

## 9. MATERION ARIANNOL

**a) CYSONIAD**

Cynigwyd y cysoniad yn gywir gan GW gyda NE yn eilio a phawb yn cytuno.

b) **DATGANIADAU BANC**

**Cyfrif Cyfredol**

| **Balans agoriadol** | **29.04.21 – 28.05.21** | **8,751.70** |
|---|---|---|
| Derbyniadau | Cwmni Alun Griffiths | 750.00 |
| Talu allan | G. Jones - Tap y Fynwent | 117.00 |
| | Rhodd I CFFIE | 100.00 |
| | Gwalch - Torri Gwair y Fynwent | 354.00 |
| | Cyflog Clerc | 575.00 |
| **Balans Cau** | | **8,355.70** |

**Cyfrif Cadw**

| **Balans Agoriadol** | **27.04.21 – 31.05.21** | **44,497.15** |
|---|---|---|
| Derbyniadau | Presept Cyngor Gwynedd | 14,420.00 |
| **Balans Cau** | | **58,917.15** |

c) **TALIADAU I'W CYMERADWYO**

£575.00 Cyflog a Threuliau Clerc

Ail ddarparwyd siec I Designer Sings oherwydd camsillafiad.

10. **GOHEBIAETH**

a) **DION ROBERTS – PROJECT UWCH GWYRFAI**

b) **YMGYNGHORIAD GORCHYMYN GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS (GDMC): RHEOLI CŴN**
Gan fod dyddiad cau'r ymgynghoriad erbyn hyn wedi mynd heibio'r clerc i yrru sylwadau ymlaen dylai cwn cael eu cadw ar dennyn yn gyffredinol mewn llefydd cyhoeddus ac ar dir comin.

c) **MANDY EVANS – PEIPEN YN Y MAES PARCIO**
Y clerc i yrru llythyr o ddiolch ymlaen i'r Cwmni am eu holl waith.

d) **GORCHYMYN DIWYGIO CYNGOR GWYNEDD (LLWYBR TROED 161)**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau

e) **CYNLLYN LLESIANT GWYNEDD A MON**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau

f) **CYNNIG SIARS MENTER TY'N LLAN - YN CAU 11 GORFFENNAF**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau

g) **RHAGLEN SMS - PARC GLYNLLIFON - CYFARFOD RHITHIOL 1AF O ORFFENNAF**
Gwirfoddolodd NE fynychu'r cyfarfod rhithiol – y clerc I wneud y trefniadau perthnasol

11. **MATERION LLEOL**

1. **TOM – GOLEUADAU WRTH Y GOAT YN LLANWNDA A CHOED WEDI TYFU**
Derbyniwyd cwyn am goed wedi côr dyfu o gwmpas y Goat yn Llanwnda, hefyd cais am oleuadau stryd gyferbyn a Pitian Patian. Y clerc i hysbysebu'r Cyngor Sir.

2. **GT – TWMPATHAU CYFLYMDER GER YSGOL RHOSGADFAN**

| | |
|---|---|
| | Adroddodd GT bod un o'r twmpathau wedi ei atgyweirio yn dilyn cwyn gan y clerc ond bod angen ail ymweliad i atgyweirio'r twmpath agosaf iddo.<br>Y clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd I drefnu<br><br>**3. JH – GWAIR WEDI EI ADAEL AR LWYBR BRYNGWYN YN DILYN TORIAD**<br>Adrodd JH bod torri gwair wedi ei gynnal ar Lwybr Bryngwyn yn ddiweddar ond nid oedd y gwastraff wedi ei glirio ger Rhanddir a bod perig damwain yn dilyn glaw i gerddwyr. Y clerc i gysylltu â'r contractwr<br><br>**4. JH – SBWRIEL WEDI EI ADAEL YN RHOSTRYFAN**<br>Adroddodd JH bod matras wedi ei adael blemae'r bins yn cael eu codi tu ôl I Fynwent Rhostryfan ar Lon Becws gyferbyn a Talarfon a thŷ ôl I Frondeg, y clerc i adrodd y gwyn I Gyngor Gwynedd<br><br>**5. GW – TYLLAU AR LON RHOSTRYFAN**<br>Derbyniwyd cwyn gan GW bod dŵr yn sefyll ar Lon Llwyn Onn yn Rhostryfan wrth Fryn Llwyd a Bryn Elan.<br>Y clerc I adrodd y gwyn I Cyngor Gynedd<br><br>**6. GW – LLWYBR BRYN GLAS**<br>Adroddodd GW nad oedd y gwair yn cael ei glirio ar ôl ei dorri ar y safle yma chwaith a bod y gwair yn gorchuddio'r rhychau oedd wedi codi cyn i'r gwaith arbed llifogydd ei gynnal ac y creu peryglon i gerddwyr - y Clerc I adrodd i'r contractwr torri gwair.<br><br>**7. GW – VAN WEDI PARCIO YN BERYGLUS**<br>Adroddodd NE bod fan yn cael ei pharcio ac yn anwybyddu llinellau melyn ar sgwâr Rhostryfan, y clerc i adrodd I Gyngor Gwynedd.<br><br>**8. GT – CHWREL MOEL TRYFAN**<br>Cytunodd y Cyngor I'r chwarel gynyddu nifer o loriau yn gyrru o'r chwarel am gyfnod byr yn ddiweddar i'w hwyluso i baratoi gofynion nawr bod y cyfyngiadau wedi ymlacio. Gofynnodd GT os yw'r amser ar ben gan fod y cynnydd yn parhau. Y Clerc I wneud ymholiadau.<br>Y Clerc hefyd i gysylltu â Ffion Llwyd Jones I ddarganfod pryd fydd cyfarfodydd gyda Mr. Smith yn ail ddechrau. |
| 12. | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | **Dyddiad:** 7 o'r gloch y 21 o Orffennaf, 2021<br>**Lleoliad:** **I'w gadarnhau gan y Cadeirydd** |